



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru

Leading Social Services in Wales

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
Cael gwared ar Elw wrth Ofalu am Blant sy'n Derbyn Gofal
Cyfraniad i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol
Mawrth 2024

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Methodoleg yr AERh	4
Y Cyd-destun	6
Astudiaeth Marchnad ar Ofal Cymdeithasol Plant	7
Manteision Anfanteision Risgiau	8
Manteision	Error! Bookmark not defined.
Anfanteision	8
Risgiau	8
Asesu'r Gystadleuaeth	10
Tybiaethau	12
Tabl 1 - Sut y cyfrifwyd y costau ar gyfer Opsiwn 1	Error! Bookmark not defined.
Tabl 2 - Sut y cyfrifwyd y costau ar gyfer trawsnewid.....	13
Tabl 3 – Sut y cyfrifwyd costau'r dyfodol.....	13
Opsiwn 2: y sefyllfa yn y dyfodol a chost y polisi dileu	Error! Bookmark not defined.
Data gwaelodlin	21
Gwariant gwasanaethau cymdeithasol	21
Tabl 4 - Gwariant Cenedlaethol ar Ofal Preswyl i Blant (£ mil)	Error! Bookmark not defined.
Tabl 5 - Gwariant Cenedlaethol ar Wasanaethau Maethu (£ mil).....	Error! Bookmark not defined.
Tabl 6 - Gwariant Cenedlaethol ar Wasanaethau Gofal Preswyl a Maethu (£ mil) ..	Error! Bookmark not defined.
not defined.	
Elw	21
Math o leoliad	23
Tabl 7 - Plant mewn gofal mewn lleoliadau maethu a phreswyl yn Lloegr (2021), a Chymru (2021).....	23
Tabl 8 - Plant mewn gofal mewn lleoliadau preswyl yn ôl y math o ddarparwr yng Nghymru.....	23
Tabl 9 - Plant mewn gofal mewn gofal maeth yn ôl y math o ddarparwr	24
Trawsnewid	24
Tabl 10 - Senario Trawsnewid.....	24
Tabl 11 - Senarios Trawsnewid wedi eu cymhwyso at ddsbarthiad lleoliadau maethu ar hyn o bryd yn ôl y math o ddarparwr.....	24
Tabl 12 - Senarios Trawsnewid wedi eu cymhwyso at ddsbarthiad lleoliadau maethu ar hyn o bryd yn ôl y math o ddarparwr.....	25
Gwelyau sydd eu hangen i ateb y galw	25
Tabl 13 – Amrywio cost datblygu digon o gartrefi ar gyfer y senarios gwahanol.	25
Opsiwn 1	26
Tabl 14 - Costau Opsiwn 1.	26
Tabl 15 - Costau Opsiwn 1 gyda thwf parhaus yn y lleoliadau preswyl cost alldro wedi'i gymhwyso.	27
Opsiwn 2 Senario A	28

Tabl 16 - Costau Trawsnewid Opsiwn 2, Senario A	28
Tabl 17 – Buddsoddiad Opsiwn 2, Senario A	29
Tabl 18 - Newid yn yr alldro Opsiwn 2, Senario A.....	29
Tabl 19 - Gwerth asedau gweddilliol Opsiwn 2, Senario A.....	29
Tabl 20 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 (Senario A)	30
Tabl 21 - Elw a gollwyd gan ddarparwyr er-elw.....	31
Tabl 22 - Costau Trawsnewid Opsiwn 2 Senario B	32
Tabl 23 – Buddsoddiad Opsiwn 2, Senario B	Error! Bookmark not defined.
Tabl 24 - Newid yn yr alldro Opsiwn 2, Senario B.....	33
Tabl 25 - Gwerth asedau gweddilliol Opsiwn 2, Senario B.....	33
Tabl 26 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2, Senario B, gan gynnwys costau trawsnewid	Error! Bookmark not defined.
Tabl 27 - Elw a gollwyd gan ddarparwyr er-elw, Opsiwn 2 Senario B.....	34
Opsiwn 2 Senario C.....	35
Tabl 28 - Costau Trawsnewid Opsiwn 2, Senario C	Error! Bookmark not defined.
Tabl 29 – Buddsoddiad Opsiwn 2, Senario C.....	Error! Bookmark not defined.
Tabl 30 - Newid yn yr alldro Opsiwn 2, Senario C	36
Tabl 31 - Gwerth asedau gweddilliol Opsiwn 2, Senario C.....	36
Tabl 32 - Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2, Senario C.....	Error! Bookmark not defined.
Tabl 33 – Cymhariaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 Senario C, gan gynnwys costau trawsnewid	Error! Bookmark not defined.
Tabl 34 - Elw a gollwyd gan ddarparwyr er-elw, Opsiwn 2 Senario C	37

Cyflwyniad

Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn gofyn am Femorandwm Esboniadol i gyd-fynd â Biliau'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n archwilio gwerth am arian, yn dangos manteision yr hyn y mae'r llywodraeth yn ei gynnig, ac yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

I gefnogi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gofynnodd Llywodraeth Cymru i ADSS Cymru helpu i ddarparu asesiad o'r costau/cynilion a'r manteision/anfanteision a fyddai'n codi yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil i ddileu elw mewn gofal cymdeithasol i blant.

Gofynnwyd i'r asesiad penodedig rychwantu'r cyfnod o 2025-6 i 2034-5, gan ddefnyddio 2022-23 fel y flwyddyn sylfaen prisiau ar gyfer yr holl gostau a'r manteision trwy gydol y dadansoddiad¹. Gofynnwyd i ADSS Cymru fesur yr effaith ar ddarparwyr y sector preifat a'r trydydd sector (gan gynnwys sefydliadau o wahanol feintiau, fel mentrau bach a chanolig a busnesau mwy) ac a fyddai sgil-effaith ai peidio ar ddarparwyr mewn sectorau cysylltiedig, fel gofal cymdeithasol i oedolion.

Asesodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gostau a manteision **dau opsiwn**:

1. **Opsiwn 1** - Busnes fel Arfer/Gwneud Dim - mae hon yn llinell sylfaen i gymharu costau, buddion a risgiau ychwanegol yr opsiwn arall.
2. **Opsiwn 2** - Y ddeddfwriaeth arfaethedig i ddileu elw wrth ofalu am blant sy'n derbyn gofal.

Datblygwyd senarios amrywiol hefyd lle mae 50%, 75%, neu 100% o ddarparwyr er-elw yn dewis gadael y sector yn hytrach na dod yn sefydliad nid-er-elw.

Er mwyn sicrhau y gellid gwneud cymhariaeth debyg i'w debyg, roedd y dull lefel uchel o asesu'r costau a'r manteision yn cadw sawl ffactor fel "ffactorau cyson":

1. Fyddai siâp cyffredinol darparu lleoliadau, yn benodol nifer y plant yn y system ofal ac, felly, nifer y gwelyau sydd eu hangen, ddim yn newid.
2. Byddai cydbwysedd y ddarpariaeth rhwng maethu a gofal preswyl yn parhau'n gyson.
3. Doedd chwyddiant ddim wedi ei gynnwys.

Methodoleg yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Roedd gan yr asesiad dri cham rhyng-gysylltiedig.

1. **Adolygu** gwybodaeth wedi'i chyhoeddi.
2. Datblygu **model rhesymeg** i ddarparu fframwaith systematig a gweledol ar gyfer amcangyfrif effaith ariannol y newid polisi (costau/arbedion a manteision/anfanteision)
3. **Ymgysylltu** â rhanddeiliaid i helpu i gasglu costau drwy:

¹ Nid yw costau sy'n gostwng yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r chwyddiant cyffredinol a ddisgwylir mewn prisiau.

- a. ddarparu data/tystiolaeth sy'n bodoli, a nodi bylchau
- b. herio rhagdybiaethau a'u hegluro
- c. archwilio ffigurau
- d. amlygu rhwystrau posibl
- e. cymryd rhan mewn trafodaeth ac ysgogi i feddwl
- f. meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo consensws
- g. sefydlu iaith gyffredin gyda phwyntiau cyfeirio cyffredin.

Datblygwyd y model rhesymeg gan ddefnyddio dull ailadroddol a chydweithredol. Yna cynhaliodd cynrychiolwyr o randdeiliaid amrywiol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Maethu Cymru, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ac ADSS Cymru, drafodaethau adeiladol ynghylch crisialu'r costau. Yna fe wnaeth rhanddeiliaid brofi'r model dan straen ac adolygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y rhagdybiaethau cyn penderfynu ar y costau drafft terfynol. I ddilyn, cafodd y rhain eu hadolygu, eu herio a'u mireinio.

Mae'r asesiad yn defnyddio amrywiaeth o ddata ariannol a data arall, gan gynnwys:

1. Gwybodaeth ariannol sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol.
2. Gwybodaeth ariannol a gynhrychwyd gan lywodraeth leol, Maethu Cymru a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant.
3. Defnyddiwyd ychydig bach o ddata, sy'n fasnachol sensitif ac heb fod yn y parh cyhoeddus, i drionglu casgliadau.

Rydym hefyd wedi ystyried gwaith pobl eraill, gan gynnwys [Adroddiad ar yr Astudiaeth Marchnad ar Ofal Cymdeithasol Plant \(Mawrth 2022\)](#) Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, [Children's Services UK Market Report \(6ed Rhifyn\)](#) LaingBuisson a [Profit making and Risk in Independent Children's Social Care Placement Providers \(Mawrth 2022\)](#) Cymdeithas Llywodraeth Leol a Revolution Consulting Limited

Rydym wedi cymhwyso egwyddorion cyffredinol y Llyfr Gwyrdd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM i werthuso polisiâu, rhaglenni a phrosiectau. Fodd bynnag, o ystyried y cymhlethdod sy'n gynhenid yn ecosystem gofal cymdeithasol Cymru, a'r ffaith mai un newidyn fydd yn effeithio fwyaf ar yr amrywiad mewn costau a gynhrychir – sef nifer y darparwyr er-elw sy'n newid i fod yn fodelau masnachol nid-er-elw - yr egwyddor arweiniol allweddol ar gyfer yr asesiad hwn yw cymesuredd. Rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lefel y manylion a'r ymdrech sydd ei hangen i gasglu data newydd yn erbyn yr ystod o ganlyniadau posibl y gellid eu cyflawni.

Y Cyd-destun

Cyn y 1990au, roedd awdurdodau lleol yn rheoli ac yn darparu gofal cymdeithasol preswyl a gofal maeth i blant yn uniongyrchol neu ar y cyd â sefydliadau nid-er-elw². Ers hynny, bu tuedd amlwg lle gwelwyd awdurdodau lleol a sefydliadau nid-er-elw yn gweithredu llai o gartrefi plant yng Nghymru yn uniongyrchol, neu'n rhoi'r gorau i wneud hynny'n llwyr. Ni sbardunwyd y newid hwn gan un penderfyniad polisi gan Lywodraeth Cymru na chyfres ohonynt, ac mae'n adlewyrchu tuedd ar draws y DU.

Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau hyn yn gymhleth ac yn amlochrog, ond nododd Astudiaeth Marchnad ar Ofal Cymdeithasol Plant³ yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) 2022 *ddau* brif reswm:

- **Risgiau i Enw Da:** Mae cyfres o sgandalau yn ymwneud â cham-drin plant mewn gofal sy'n agored i niwed a thrin plant mewn gofal sy'n agored i niwed yn wael⁴ wedi cael effaith ddwys. Mae'r niwed anfesuradwy a achoswyd i'r plant wedi niweidio ymddiriedaeth a hygredd y sefydliadau sy'n gyfrifol am eu gofal, a hynny'n ddifrifol. Mewn ymateb, mae llawer o ddarparwyr nid-er-elw wedi ailasesu eu hymwneud uniongyrchol â chartrefi plant, ac yn effro i'r potensial ar gyfer sgandalau yn y dyfodol a'r niwed i enw da a fyddai'n gysylltiedig â hynny. Dim ond un darparwr cartrefi plant preswyl nid-er-elw sydd yng Nghymru.
- **Cyfyngiadau Ariannol:** Mae'r risg ariannol o redeg gofal plant yn fewnol yn sylweddol. Mae'r costau'n cynnwys y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â darparu gofal (megis staffio, cynnal a chadw ac adnoddau) a'r costau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â rheoliadau a rheoli risg. I lawer o awdurdodau lleol, mae'r pwysau ariannol hwn wedi dod yn fwyfwy heriol, yn enwedig yng nghyd-destun cyni ehangach yn y sector cyhoeddus a thoriadau i gyllidebau.

Mae gwasanaethau gofal preswyl yn weithgaredd sy'n drwm o ran llafur ac mae eu sylfaen gost yn cael ei phennu'n bennaf trwy gyflogi nifer fawr o weithwyr sydd ar gyflog cymharol isel. Mae cyflogau swyddi sydd ar gyflogau is yn dueddol o fod yn uwch yn y sector cyhoeddus ac fel arfer fe'u pennir gan raddfeydd cyflog safonol sy'n adlewyrchu rolau'r swyddi, cyfrifoldebau a lefel y swyddi. Fel arfer, mae gweithwyr yn y sector cyhoeddus yn cael buddion mwy cynhwysfawr, gan gynnwys cynlluniau pensiwn llawer mwy hael (a drud i'w hariannu).

Gall cwmnïau er-elw gynnig contractau cyflogaeth mwy amrywiol, fel rhai rhan-amser, dros dro a dim oriau. Mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu i'r cyflogwyr hyn addasu eu gweithlu'n gyflym ar sail y galw, gan leihau costau llafur a gweithredu'n fwy effeithlon. Mae hyn yn bwysig mewn sector lle gall yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaeth unigol amrywio mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld gan ddibynnu ar lefel y galw.

Er bod awdurdodau lleol yn dal i ddominyddu'r cyflenwad o leoliadau gofal maeth, maent yn cystadlu yn erbyn asiantaethau gofal maeth er-elw ac nid-er-elw i ddenu gofalwyr maeth newydd a chadw rhai presennol. Mae gan asiantaethau gofal maeth er-elw ac nid-er-elw fwy o hyblygrwydd hefyd o ran y ffioedd a'r lwfansau y gallant eu talu i ofalwyr maeth. Mae hyn yn bwysig mewn meysydd lle mae'r galw yn fwy na'r cyflenwad gofal maeth. Gall gofal maeth er-elw ymateb yn well i gyfyngiadau ar yr ochr gyflenwi trwy gynnig pecyn ariannol

² <https://www.mdpi.com/2673-995X/4/1/19#:~:text=Within%20child%20welfare%20services%2C%20placements,outsourced%20from%20the%20late%201990s.>

³ <https://www.gov.uk/government/publications/childrens-social-care-market-study-final-report>

⁴ <https://www.york.ac.uk/inst/spru/research/pdf/Abuseincare.pdf>

gwell heb fynd trwy brosesau biwrocraidd sy'n sail i lywodraethu ariannol da mewn llywodraeth leol.

Astudiaeth Marchnad ar Ofal Cymdeithasol Plant

Mae *Astudiaeth Marchnad ar Ofal Cymdeithasol Plant 2022 Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd* wedi taflu goleuni ar y materion dwys sy'n plagio marchnad gofal cymdeithasol preswyl a gofal maeth i blant yng Nghymru. Wrth eu dadansoddi, datgelwyd bod rhannau helaeth o'r farchnad yn ddarniog, yn frith o gymhlethdod ac yn gamweithredol, a bod hyn yn cael effaith ddifrifol ar allu awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol i blant a phobl ifanc. Mae'n nodi bod cyflwr presennol y farchnad yn agor yr awdurdodau hyn i rymoedd marchnad andwyol, ac yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd wrth iddynt geisio dod o hyd i atebion gofal addas a fforddiadwy i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Mae nifer o ganfyddiadau allweddol yr astudiaeth wedi dylanwadu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn:

- **Diffyg Lleoliadau Addas:** Mae diffyg amlwg yn argaeledd lleoliadau addas, ac mae hyn yn golygu nad yw plant yn cael y gofal a'r llety sy'n cyd-fynd â'u hanghenion.⁵
- **Elw a Phrisiau:** Mae darparwyr preifat mwyaf lleoliadau plant yn cynhyrchu elw sylweddol uwch ac yn codi llawer mwy na'r disgwyl mewn marchnad sy'n gweithredu'n dda. Mae'r anghysondeb hwn yn tynnu sylw at aneffeithlonrwydd a chamfanteisio posibl yn y farchnad.⁶
- **Lefelau Dyled Uchel:** mae baich dyled sylweddol rhai o'r darparwyr preifat mwyaf yn bryder sylweddol. Mae'r ansefydlogrwydd ariannol hwn yn peri risg o fethiannau sydyn ac afreolus, gan fygwth parhad gofal i blant a leolir o dan eu goruchwyliaeth.
- **Canlyniadau Methiannau yn y Farchnad:** Mae'r astudiaeth yn amlinellu nifer o ganlyniadau niweidiol sy'n deillio o'r aneffeithlonrwydd hwn yn y farchnad, gan gynnwys mwy o ddefnydd o ddarpariaethau heb eu rheoleiddio, cynnydd mewn costau lleoli, a'r effaith negyddol ar fynediad plant i leoliadau gofal addas.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cyflwr presennol y farchnad yn gofyn am ddiwygiadau sylweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i fynd i'r afael â'r materion systemig hyn. Pwysleisiodd yr angen am gydweithio gwell ar draws awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys addysg, tai, gwasanaethau hamdden, y GIG, a darparwyr sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth a'r gwerthoedd.

⁵ Mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant hefyd wedi nodi gwahaniaethau daearyddol sylweddol a pharhaus, ar wahân, o ran argaeledd lleoliadau, sy'n golygu bod y cydweddu hwn yn waeth eto.

⁶ Mae hyn yn cael sylw manylach ar dudalen 20.

Manteision Anfanteision Risgiau

Manteision

Bydd effaith ariannol uniongyrchol y newidiadau arfaethedig ar y system ofal cymdeithasol yn cael ei thrafod yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, byddai datblygu marchnad weithredol lle gall awdurdodau lleol gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol i blant a phobl ifanc, yn dod â nifer o fanteision ehangach.

Trwy alluogi awdurdodau lleol i gynllunio a sicrhau lleoliadau gofal priodol yn fwy effeithiol, mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu lleoli mewn amgylcheddau sy'n cyd-fynd yn agos â'u hanghenion. Bydd hyn yn cefnogi lles a datblygiad cyffredinol plant sy'n derbyn gofal, gan arwain at ganlyniadau cymdeithasol, addysgol ac iechyd gwell.

Bydd marchnad a reolir yn fwy effeithlon yn lleihau'r angen i leoli plant ymhell o'u cymunedau. Trwy wella'r gallu i gynllunio lleoliadau a rheoli capasiti, gall awdurdodau lleol sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael yn agosach at gymunedau gwreiddiol y plant. Bydd dod â gwasanaethau'n fewnol yn cefnogi dealltwriaeth a arweinir gan weithwyr cymdeithasol am batrymau lleoli. Bydd hyn yn golygu bod modd rheoli capasiti yn rhagweithiol, gan leihau'r ymdrech ffwdanus i sicrhau lleoliadau funud-olaf a all arwain at baru llai nag optimaidd a chostau uwch.

Anfanteision

Gallai ymadawriad rhai darparwyr er-elw, sydd wedi datblygu modelau gofal unigryw ac o ansawdd uchel, fod yn her sylweddol i'r ecosystem ofal. Yn aml, mae'r cwmnïau hyn yn darparu gwasanaethau arbenigol sy'n deillio o flynyddoedd o fuddsoddiad. Bydd eu hymadawriad yn gadael bwch yn y sector gofal na fydd yn hawdd i sefydliadau nid-er-elw newydd neu bresennol ei lenwi, gan arwain at berygl o wanhau ansawdd ac amrywiaeth y gofal sydd ar gael.

Gallai'r cyfyngiadau a osodir ar wneud elw leihau arloesi ac atal partneriaethau. Er y gallai awdurdodau lleol a sefydliadau nid-er-elw geisio cyllid a defnyddio eu cronfeydd wrth gefn neu wargeddi, yn aml mae gan endidau er-elw fwy o hyblygrwydd masnachol i fuddsoddi neu ariannu ymchwil, datblygu ac arferion arloesol. Mae cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio'n gyflym ar wariant bob-dydd heb ei ariannu ac, felly, maent yn annhebygol o flaenoriaethu datblygiadau arloesol i wasanaethau yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Bydd cyfyngu ar y gallu hwn yn atal ymdrechion cydweithredol ac yn lleihau gallu'r sector i esblygu a diwallu anghenion newidiol y rhai y mae'n eu gwasanaethu.

Mae statws nid-er-elw yn cyflwyno rhywfaint o gymhlethdod gweinyddol ychwanegol. I ddechrau, rhaid i sefydliadau ddangos eu bod yn rhai nid-er-elw, ac efallai y bydd angen i reoleiddwyr hefyd wneud asesiadau parhaus pellach o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y statws wedi'i gynnal, yn enwedig lle mae sefydliad nid-er-elw o fewn grŵp o gwmnïau er-elw neu lle mae trefniant Opco/Propco.⁷ Mae'r baich biwrocraidaidd posibl hwn yn peri risg i effeithlonrwydd darparu gwasanaethau.

Risgiau

Gallai'r newid tuag at fodol nid-er-elw waethygu'r pwysau sydd ar y gweithlu gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae yna risg y gallai gweithwyr proffesiynol medrus iawn fod yn amharod i symud at awdurdodau lleol neu leoliadau nid-er-elw. Gallai'r talent a gollir yn sgîl hynny effeithio'n negyddol ar ansawdd y gofal ac arloesi yn y sector.

Gallai ffocws y polisi ar ddarpariaeth nid-er-elw leihau'n anfwriadol, dros y tymor hir, argaeledd ac addasrwydd lleoliadau gofal, yn enwedig i blant sydd angen sylw arbenigol.

⁷ <https://www.peterlynnandpartners.co.uk/what-is-an-opco-propco/>

Mae'r potensial ar gyfer cronfa lai o ddarparwyr sy'n barod neu'n gallu darparu ar gyfer anghenion cymhleth, yn codi pryderon sylweddol ynghylch gallu'r system i ddarparu gofal priodol i bob plentyn. Mae yna bosibilrwydd o waethygu'r bylchau presennol o ran darparu gwasanaethau.

Mae'r risg dybryd o darfu ar y farchnad darparwyr, yn sylweddol. Os bydd darparwyr er-elw presennol yn dewis tynnu'n ôl o'r farchnad neu gyfyngu ar eu gwasanaethau mewn ymateb i'r newidiadau polisi, gallai arwain at brinder sydyn ac argyfyngus o leoliadau.

Efallai y bydd darparwyr nid-er-elw yn dewis peidio â datblygu gwasanaethau preswyl i blant oherwydd risgiau i enw da a risgiau ariannol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol dros ddatblygu cartrefi plant a'u darparu'n uniongyrchol, oherwydd penderfyniadau polisi darparwyr nid-er-elw, y gallai rhai ohonynt fod â'u pencadlys y tu allan i Gymru.

Asesu'r Gystadleuaeth

Cynigir mai dim ond darparwyr nid-er-elw ddylai allu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu. Byddai hyn yn golygu mai dim ond darparwyr nid-er-elw fyddai'n cael gweithredu yng Nghymru. Mae'n amlwg y bydd hyn yn effeithio'n fawr ar y farchnad gofal cymdeithasol i blant.

Fodd bynnag, nid yw'r sector preswyl a maethu plant yn cynnwys cwmnïau er-elw unffurf. Mae'n cwmpasu sbectrwm eang o fusnesau sy'n wahanol o ran maint, cwmpas ac amcanion gyda modelau masnachol gwahanol iawn. Bydd yr effaith ar y rhain yn wahanol.

Mae yna lawer o fentrau bach a chanolig yn y sector. Mae'r rhain fel arfer yn eiddo i bobl sydd â phrofiad mewn gofal cymdeithasol plant, ac yn cael eu gweithredu ganddynt, ac maent yn tueddu i ganolbwyntio ar ôl troed daearyddol tynn. Yn aml, mae'r cymhelliant i'r entrepreneuriaid hyn sy'n dod i mewn i'r farchnad i ddechrau yn mynd y tu hwnt i elw ariannol; maent yn cael eu gyrru gan angerdd dros wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc ac wedi ceisio trosoli eu harbenigedd i lenwi bylchau arbenigol o fewn yr ecosystem gofal cymdeithasol. Fel gyda llawer o gwmnïau llai, mae'r busnesau gofal cymdeithasol hyn yn arbennig o agored i newidiadau yn ymddygiad cwsmeriaid. Yn yr achos hwn, mae eu llwyddiant yn dibynnu ar berthnasoedd comisiynu da a signalau cryf o'r farchnad. Mae perchnogaeth y cwmnïau hyn bron bob amser wedi'i lleoli yng Nghymru, ac maent yn rhan hanfodol o'r economi sylfaenol. Bydd gallu'r cwmnïau hyn i aros yn y sector trwy newid at fodel masnachol nid-er-elw yn dibynnu ar lawer o ffactorau, gan gynnwys lefel y ddyled.

Mae cwmnïau mwy yn y sector yn aml yn ehangu eu ffocws y tu hwnt i ofal cymdeithasol plant, gan fentro i feysydd cysylltiedig fel addysg neu iechyd. Nod y cwmnïau hyn yw creu synergeddau masnachol a gweithredol rhwng gwasanaethau plant ac oedolion. Maent yn gweithio ar ôl troed rhanbarthol ac yn aml mae ganddynt wasanaethau ar y naill ochr a'r llall i ffin Cymru. Mae ganddynt y raddfa i ddatblygu a rhedeg gwasanaethau arbenigol. Mae'r cwmnïau hyn yn llai agored i ymddygiad awdurdodau lleol Cymru fel cwsmeriaid ac mae ganddynt y wybodaeth gorfforaethol a'r profiad o reoleiddio i newid gwasanaethau yn gyflym o ofal preswyl i blant i ofal cymdeithasol preswyl i oedolion neu wasanaethau byw â chymorth. Byddai hyn yn eu galluogi i gadw asedau proffidiol y maent wedi buddsoddi ynddynt. Gallent hefyd barhau i fodoli fel cwmnïau sy'n gwneud elw trwy roi'r gorau i'w gweithrediadau yng Nghymru, cau gwasanaethau yn gyfan gwbl neu symud i weithredu yn Lloegr lle mae'r gwasanaethau hyn yn bodoli yn agos at y ffin.

Mae darparwyr gofal cymdeithasol preswyl canolig eu maint wedi buddsoddi mewn gwasanaethau presennol neu dwf newydd, o gronfeydd cyfranddalwyr, ac mae eraill wedi ehangu trwy fynd i ddyled. Maent hefyd yn aml yn gweithredu ar gylchoedd buddsoddi hir iawn. Mae hefyd yn llai tebygol y bydd cwmnïau sydd â dyled allanol neu fuddsoddiad sylweddol gan gyfranddalwyr yn troi'n drefniant nid-er-elw oni bai bod cymhelliad dros hyn. Gallai'r cwmnïau hyn leihau eu hamlygiad i ddatblygu gwasanaethau newydd yng Nghymru gan y gallent feddwl bod risg resymol, os ydynt yn llwyddiannus, y gellid ymestyn y dull dileu yn y degawd nesaf, i feysydd gwasanaeth eraill, megis gofal cymdeithasol i oedolion. Byddai hyn yn arwain at oeri mewn buddsoddi preifat ar draws yr holl ofal iechyd a chymdeithasol a gomisiynir. Gallai cwmnïau sy'n darparu gofal maeth newid at drefniadau nid-er-elw gan fod y cylch buddsoddi yn llawer byrrach ac mae angen llai o fuddsoddiad cyfalaf.

Ar ben arall y sbectrwm, mae endidau sy'n rhedeg nifer o wasanaethau sy'n eiddo i Gwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus neu'n eiddo ecwiti preifat. Bellach mae gan y sefydliadau hyn gyfran sylweddol o'r farchnad gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru⁸ ond maent yn

⁸ <https://www.gov.uk/cma-cases/childrens-social-care-study#final-report>

gweithredu ar draws ardaloedd daearyddol helaeth a sectorau diwydiannol. Mae'r rhesymau pam mae'r cwmnïau hyn yn buddsoddi mewn gofal cymdeithasol plant yn cynnwys:

- Mae galw cyson ac anghylchol am wasanaethau gofal cymdeithasol i blant, ac mae hynny'n golygu ei fod yn sector deniadol ar gyfer buddsoddi. Nid yw'r angen am y gwasanaethau hyn yn lleihau'n sylweddol yn ystod dirywiad economaidd, ac felly mae'n darparu ffrwd referniw sy'n gymharol sefydlog.
- Mae gofal cymdeithasol i blant yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, gan gynnig ffynhonnell incwm hirdymor ddiogel a denu buddsoddwyr preifat sy'n gweld llai o risg i'w buddsoddiad.
- Mae cwmnïau ecwiti preifat yn aml yn ceisio buddsoddi mewn sectorau lle mae yna gyfleoedd i gydgrynhoi, sicrhau gwelliannau gweithredol, a gweithredu ar raddfa fwy. Mae'r farchnad gofal cymdeithasol i blant yn dameidiog, ac yn cynnig cyfleoedd i fuddsoddwyr brynu darparwyr llai, symleiddio gweithrediadau, a chreu sefydliadau mwy, mwy effeithlon lle mae maint yr elw yn fwy.

Mae'r llwybr nodweddiadol yn cynnwys caffaeliad busnesau bach a chanolig gan gwmnïau mwy, a allai yn eu tro gael eu prynu gan gwmnïau ecwiti preifat. Mae'r broses hon yn aml yn datblygu dros nifer o flynyddoedd wrth i gwmnïau canolig eu maint geisio ehangu eu gwasanaethau a'u cyrhaeddiad yn y farchnad, yn organig. Wedi hynny, mae'r endidau mwy hyn yn dod yn dargedau deniadol i gwmnïau ecwiti preifat, sy'n trosoli strategaethau ariannol cymhleth sy'n seiliedig ar ddyled i adennill cymaint o enillion â phosibl. Yna, mae cwmnïau ecwiti preifat yn benthycu arian i ariannu eu caffaeliadau. Mae'r strategaeth hon yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn cwmnïau sydd â'r potensial ar gyfer enillion uchel wrth leihau'r cyfalaf cychwynnol sydd ei angen.

Bydd buddsoddwyr ecwiti preifat yn ystyried a ydynt am barhau i fodoli ym marchnad gofal cymdeithasol Cymru ai peidio ar sail y potensial ar gyfer parhau i wneud elw trwy drefniadau ailgodi tâl. Mae gan lawer ohonynt hanes o fuddsoddi mewn marchnadoedd sydd wedi eu rheoleiddio'n sylweddol iawn ac, felly, mae ganddynt y maint a'r cwmpas i greu strwythurau cwmni cymhleth a allai gyflawni strwythurau masnachol nid-er-elw yn llwyddiannus o fewn grŵp sydd, ar y cyfan, yn gwneud elw.⁹

⁹ <https://castlesquarecf.co.uk/case-studies/private-equity-firms-acquire-specialist-childrens-services-business/>

Tybiaethau

Mae'r tablau canlynol yn amlygu'r dull a weithredwyd, y tybiaethau a ddefnyddiwyd, a'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer yr asesiad.

Tabl 1 – Sut y cyfrifwyd y costau ar gyfer Opsiwn 1

Penawdau costau	Sut y cyfrifwyd y costau hyn
Llywodraeth Cymru	
(1.a) Cyllideb polisi	Costau (yr adnodd a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer polisi gwasanaethau plant, heb gynnwys dileu). Cafwyd y data hwn gan Lywodraeth Cymru.
Awdurdodau Lleol	
(1.b) Alldro preswyl	Dyma wariant cenedlaethol awdurdodau lleol ar ofal preswyl i blant. Rydym wedi defnyddio gwariant alldro refeniw y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gofal preswyl yn 2022/23. ¹⁰
(1.c) Alldro maethu	Dyma wariant cenedlaethol yr awdurdodau lleol ar ofal maeth. Rydym wedi defnyddio gwariant alldro refeniw y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gofal maeth yn 2022/23. Aethpwyd ati i ddadansoddi'r data hyn ymhellach i eithrio costau sy'n gysylltiedig â gofalwyr <i>Maethu Person Cysylltiedig</i> parhaol a dros dro. ¹¹
(1.d) Cyfreithiol	Amcangyfrifwyd y costau cyfreithiol a ysgwyddwyd gan Awdurdodau Lleol a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu gofal preswyl a gofal maeth i blant, gan ddefnyddio'r data a oedd ar gael ac a gafwyd gan awdurdodau lleol. Mae cost gyfartalog o £50,000 fesul awdurdod lleol wedi cael ei defnyddio fel amcangyfrifiad trefn maint .
(1.e) Comisiynu	Amcangyfrifwyd y costau a ysgwyddwyd gan Awdurdodau Lleol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chomisiynu gofal cymdeithasol preswyl i blant a gofal maeth gan ddefnyddio'r data a oedd ar gael ac a gafwyd gan awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Mae cost gyfartalog o £150,000 fesul awdurdod wedi cael ei defnyddio fel amcangyfrifiad trefn maint . Rydym hefyd wedi ystyried £2m ychwanegol ar gyfer gweithgarwch gan sefydliadau cenedlaethol, megis Maethu Cymru a Chonsortium Comisiynu

¹⁰ Dyma'r flwyddyn bris sylfaenol.

¹¹ Plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda theulu neu ffrindiau wedi'u cymeradwyo fel gofalwyr maeth gan yr awdurdod lleol.

	Cymru ar gyfer Plant sy'n cefnogi materion comisiynu sy'n ymwneud â gofal preswyl i blant a maethu. Mae tîm y prosiect wedi llunio'r amcangyfrifiad hwn gan ddefnyddio data a gafwyd gan Maethu Cymru ac awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r model rhesymeg.
(1.g) Arolygiaeth Gofal Cymru	Mae cyfran o gyllideb Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael ei gwario ar gefnogi materion rheoleiddio ac arolygu sy'n ymwneud â gofal preswyl i blant a maethu. Cafwyd y data hyn gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Beth sydd heb ei gynnwys

Nid yw'r asesiad hwn yn cynnwys costau'r GIG sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer gofal preswyl i blant a gofal maeth. Nodir y bydd trosiant gros rhai darparwyr gofal yn cynnwys ffioedd am wasanaethau therapiwtig a/neu nyrsio a delir o gyllidebau'r GIG nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data ariannol alldro. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl amcangyfrif hyn o'r data sydd ar gael.

Tabl 1 - Sut y cyfrifwyd y costau trawsnewid.

Y costau ychwanegol a'r manteision ariannol wrth symud o Opsiwn 1 i Opsiwn 2 yw'r costau trawsnewid

Penawdau costau	Sut y cyfrifwyd y costau hyn
Llywodraeth Cymru	
(2.a) <i>Cyllideb polisi</i>	Costau sy'n gysylltiedig â'r polisi dileu (heb gynnwys yr adnoddau a ddyrennir ar hyn o bryd i bolisi gwasanaethau plant)
Awdurdodau Lleol	
(2.b) Alldro preswyl	<p>Mae'r newid o ddarpariaeth er-elw i nid-er-elw a gwasanaethau awdurdodau lleol yn cynnwys deinameg cymhleth a goblygiadau ariannol sylweddol ar draws sectorau amrywiol. Mae rhai o'r costau alldro hyn yn barhaol tra bod eraill yn rhai dros dro. Rydym wedi cyfrifo'r costau trawsnewid sy'n gysylltiedig â'r alldro preswyl trwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng y costau alldro preswyl ar gyfer Opsiwn 1 a'r gost alldro ddisgwyliedig ar gyfer Opsiwn 2 yn ystod y cyfnod trawsnewid.</p> <p>Darparwyr er-elw sy'n gadael y farchnad. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn wynebu cynnydd mewn ffioedd i wrthbwyso costau sy'n codi wrth i gwmpniau er-elw adael y farchnad mewn modd trefnus. Bydd y cwmniau hyn yn wynebu costau dadgomisiynu am iddynt gau'n gynnar, buddsoddiadau heb eu hadfer, a dibrisiant yng ngwerth asedau. Mae'r costau hyn yn codi oherwydd bod yr amserlenni gweithredu disgwyliedig yn llai, ac am ei bod yn dod i'r amlwg fod amodau'r farchnad yn dod yn anffafriol o ran hyfywedd masnachol hirdymor. Rydym hefyd wedi</p>

nodi pryder am wydnwch ariannol rhai darparwyr cartrefi plant preifat.

Er mwyn sicrhau mynediad at gyflenwad digonol o leoliadau bydd angen i awdurdodau lleol gynyddu ffioedd i ddarparwyr er-elw er mwyn parhau i ddefnyddio'u gwasanaethau yn ystod unrhyw gyfnod o drawsnewid. Rydym wedi ychwanegu 20% yn fwy na'r alldro presennol i ystyried costau dadgomisiynu rhesymol ar gyfer cyfran yr alldro sy'n cael ei gwario gan awdurdodau lleol ar ddarparwyr er-elw. Mae'r premiwm cost yn amcangyfrifiad trefn maint sydd wedi'i wneud wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Dylid parhau i adolygu hyn.

Nid yw'r gost hon yn barhaus a dim ond yn ystod y cyfnod trawsnewid y mae'n ymddangos. Mae graddfa'r gost hon yn dibynnu ar gyfran y darparwyr sy'n gadael y farchnad.

Darparwyr er-elw sy'n trawsnewid: Bydd awdurdodau lleol yn wynebu ffioedd uwch i wrthbwysu cwmnïau er-elw am y gost o symud at fodel masnachol nid-er-elw. Bydd darparwyr sy'n dewis modelau nid-er-elw yn wynebu costau cyfreithiol, newidiadau rheoleiddiol, a chostau trosglwyddo cyfamod neu fenthyciad. Er bod y costau hyn yn wahanol o ran maint i gostau dadgomisiynu, maent yn sylweddol ac yn cael eu hystyried trwy ychwanegu 2% yn uwch na'r alldro presennol ar gyfer costau trawsnewid.

Mae'r premiwm cost yn amcangyfrifiad trefn maint sydd wedi'i wneud wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Bydd angen profi hyn ymhellach dan straen.

Gwasanaethau presennol awdurdodau lleol: Nid yw'r dadansoddiad yn tybio unrhyw newid yng nghostau gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Gwasanaethau newydd awdurdodau lleol: Wrth i awdurdodau lleol gyflwyno gwasanaethau newydd, disgwylir i hynny arwain at ostyngiad o 10% yn yr alldro cymharol. Priodolir yr arbediad hwn i gymhwyso costau cyfalaf yn llwyr fel costau trawsnewid a'r ffaith nad oes angen cynhyrchu elw ar gyfalaf, ac felly mae'r gwasanaethau hyn yn llai costus i'w gweithredu. Ffordd arall o feddwl am hyn yw bod awdurdodau lleol wedi talu am ddatblygu cartrefi plant yn ystod y cyfnod trawsnewid, felly nid oes rhaid iddynt ystyried y gost hon (ac eithrio

	<p>dibrisiant¹²) yn barhaus. Mae'r gostyngiad hwn yn codi am nad oes rhaid i awdurdodau lleol dalu ffioedd am gostau cyfalaf oherwydd bod ganddynt bellach fynediad uniongyrchol i'r cartrefi plant preswyl sydd newydd eu datblygu.</p> <p>Mae'r premiwm cost yn amcangyfrifiad trefn maint sydd wedi'i wneud yn ystod datblygiad y model rhesymeg. Dylid parhau i adolygu hyn.</p> <p>Rydym wedi adlewyrchu canfyddiadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ac felly nid ydym wedi cynnwys gostyngiad gweithredol mewn costau rhwng modelau er-elw ac nid-er-elw ar gyfer darparu gwasanaethau preswyl.</p> <p>Gwasanaethau nid-er-elw presennol: Ni ddisgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu gwasanaethau nid-er-elw newid.</p> <p>Gwasanaethau nid-er-elw newydd: Fel y gwasanaethau nid-er-elw presennol, ni ddisgwylir i gyflwyno gwasanaethau newydd yn y sector hwn newid strwythurau cost yn sylweddol.</p>
(2.c) Alldro maethu	<p>Mae'r newid o ddarparu gwasanaethau er-elw i wasanaethau nid-er-elw ac awdurdodau lleol yn llai cymhleth ar gyfer gofal maeth.</p> <p>Fodd bynnag, rydym wedi cyfrifo'r costau trawsnewid sy'n gysylltiedig â'r alldro maethu unwaith eto trwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng y costau alldro preswyl ar gyfer Opsiwn 1 a'r gost alldro ddisgwyliedig ar gyfer Opsiwn 2 yn ystod y cyfnod o drawsnewid.</p> <p>Darparwyr er-elw sy'n gadael y farchnad: Efallai y bydd awdurdodau lleol yn wynebu ffioedd uwch i wrthbwysu cwmnïau er-elw sy'n gadael y farchnad. Bydd y cwmnïau hyn yn wynebu rhai costau dadgomisiynu. Fodd bynnag, gan nad oes buddsoddiadau cyfalaf sylweddol dan sylw, ni fydd unrhyw costau dadgomisiynu sylweddol sy'n gysylltiedig â dat-gydodod neu waredu asedau cyfalaf.</p> <p>Er mwyn sicrhau mynediad at gyflenwad digonol o leoliadau efallai y bydd angen i awdurdodau lleol gynyddu ffioedd i'r darparwyr er-elw hyn er mwyn parhau i ddefnyddio'u gwasanaethau yn ystod unrhyw gyfnod o drawsnewid. Rydym wedi defnyddio 10% yn uwch na'r alldro presennol i dalu'r costau dadgomisiynu. Mae hyn yn llai nag ar gyfer cartrefi preswyl plant ac yn adlewyrchu'r ffaith</p>

¹² Nodir rhagor o wybodaeth am ddibrisiant yn y naratif sydd gyda thabl 19

	<p>fod gan fusnesau gofal maeth lawer llai o amlygiad cyfalaf.</p> <p>Mae'r premiwm cost yn amcangyfrifiad trefn maint sydd wedi'i wneud wrth ddatblygu'r model rhesymeg. Dylid parhau i adolygu hyn.</p> <p>Darparwyr er-elw yn trawsnewid: Bydd darparwyr sy'n dewis modelau nid-er-elw yn wynebu costau cyfreithiol, newidiadau rheoleiddiol, a chostau trosglwyddo cyfamod neu fenthyciad. Er bod y costau hyn yn wahanol o ran maint i gostau dadgomisiynu, maent yn sylweddol ac yn cael eu hystyried trwy ddyrannu 2% ychwanegol yn uwch na'r alldro cyfredol ar gyfer costau trawsnewid. Mae'r costau hyn yn barhaus a byddant yn parhau ar ôl y cyfnod trawsnewid.</p> <p>Nid yw'r dadansoddiad yn tybio unrhyw newid yng nghostau sylfaen gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr er-elw. Yn benodol, nid ydym wedi lleihau costau i adlewyrchu cael gwared ar elw.</p> <p>Gwasanaethau presennol awdurdodau lleol: Nid yw'r dadansoddiad yn tybio unrhyw newid yng nghostau gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol.</p> <p>Gwasanaethau awdurdodau lleol newydd: Wrth i awdurdodau lleol gyflwyno gwasanaethau newydd disgwylir i hyn arwain at ostyngiad o 30% yn yr alldro cymharol. Priodolir yr elw hwn i'r arbedion gweithredol sy'n gysylltiedig â symud at fodel awdurdod lleol o fodel er-elw. Er bod darparwyr yn dadlau am hyn, mae'r dystiolaeth weithredol a gafwyd gan Maethu Cymru yn dangos bod gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn llawer llai costus nag asiantaethau maethu er-elw ac nid-er-elw. Rydym wedi adlewyrchu hyn, ac wedi defnyddio gostyngiad o 30% mewn alldro cymharol.</p> <p>Gwasanaethau nid-er-elw presennol: Ni ddisgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu gwasanaethau nid-er-elw newid.</p> <p>Gwasanaethau nid-er-elw newydd: Fel y gwasanaethau nid-er-elw presennol, ni ddisgwylir i gyflwyno gwasanaethau newydd yn y sector hwn newid strwythurau cost yn sylweddol.</p>
(2.d) Costau cychwynnol (<i>gofal preswyl i blant</i>)	Bydd awdurdod lleol yn wynebu costau cychwynnol wrth iddo sefydlu gwasanaethau preswyl newydd. Efen sylweddol o unrhyw gostau sydd ynghlwm â gweithredu gwasanaeth preswyl i blant yw staffio uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae angen tîm staff llawn (gan gynnwys rheolwyr) cyn cofrestru, a

